

Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Feddygol Avicenna

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
7	Dylai'r practis sicrhau bod staff nad ydynt yn staff clinigol sy'n gweithredu fel hebryngwyr yn ymwybodol o'r gofynion a chyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth hon a bod ganddynt ganllawiau cyfredol ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth hon.	4.1	Mae polisi hebryngwyr y practis wedi ei gynllunio i ddiogelu cleifion a staff rhag camdriniaeth neu honiadau o gamdriniaeth ac i gynorthwyo cleifion i wneud dewis gwybodus am eu harchwiliadau a'u hymgyngoriadau. Gall ein holl staff nyrsio weithredu fel hebryngwyr yn y practis. Ble bynnag y bo'n bosibl, bydd aelod o'r tîm nyrsio'n gweithredu fel hebryngwr gan eu bod yn gyfarwydd â threfniadau archwiliad personol.	Rheolwr y Practis Gerald Khan (GK)	Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>Os na fydd aelod o'r staff nyrsio ar gael, bydd aelod o'n tîm gweinyddol yn gweithredu fel hebryngwr; fodd bynnag, rhaid i'r claf gytuno i aelod o staff nad yw'n staff clinigol fod yn bresennol yn yr archwiliad, a rhaid i'r claf fod yn fodlon ar hyn.</p> <p>Bydd yr holl staff gweinyddol/staff nad ydynt yn rhai clinigol yn cael eu hyfforddi yn nhrefniadau archwiliadau personol gan eu galluogi i weithredu fel hebryngwr. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â lle i sefyll a beth i'w wyllo a chaiff cyfarwyddiadau ysgrifenedig o'r fath eu gosod ym mholisi hebryngwyr y practis, a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen yn flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ganllawiau newydd cyfredol.</p>		
8	Dylai'r practis ystyried sut i ymrymuso cleifion a gofalwyr i	6.3	Trafod y ffordd orau o gael barn cleifion a gofalwyr mewn	GK	Mai 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ddisgrifio eu profiadau o'r gwasanaethau ar sail barhaus.		cyfarfodydd practis gyda'r nod o roi holiadur cleifion ar waith. Monitro a diweddarau hysbysfyrdau'n rheolaidd gyda gwybodaeth a dderbynnir gan sefydliadau allanol fel Carers UK, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chymdeithas Alzheimer's. Cysylltu â chynrychiolydd lleol Carers UK er mwyn iddo fynychu ein cyfarfod practis, a thrafod sefydlu hyrwyddwr gofalwyr yn y practis er mwyn cadw mewn cysylltiad parhaus â Carers UK.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Rhaid i'r practis sicrhau bod asesiadau risg amgylcheddol yn cael eu cynnal i nodi a rheoli unrhyw risgiau yn amgylchedd y practis.	2.1; Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Bydd rheolwr y practis yn cynnal asesiad risg amgylcheddol o'r adeilad yn ystod mis Mai 2016. Mae polisi iechyd a diogelwch ar waith yn y practis sy'n cynnwys asesiadau risg wedi'u cynllunio, ond nid yw'r practis wedi derbyn hyfforddiant asesu risg/cyflawni unrhyw	GK	Mai 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>asesiadau risg (mae unrhyw ddigwyddiadau a nodwyd yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd trwy gyfrwng ein system hysbysu am ddigwyddiadau arwyddocaol a chymerir camau gweithredu yn unol â hynny).</p> <p>Mae'r practis wedi cytuno â phractisau eraill yn yr ardal i drefnu/cynnal hyfforddiant asesu risg i staff er mwyn canfod/gweithredu yn sgil unrhyw risgiau yn amgylchedd ein practis.</p>		
11	Rhaid i'r practis sicrhau bod systemau ar waith i fonitro safonau rheoli heintiau a chymryd camau gweithredu i sicrhau bod defnyddiau fel llenni mewn ystafelloedd triniaeth yn cael eu golchi yn ôl yr angen ac yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau.	2.4	Mae polisi rheoli heintiau ar waith yn y practis ond bydd hwn yn cael ei ddiwygio i gynnwys/sicrhau bod yr holl ddefnyddiau fel y llenni preifatrwydd yn yr ystafelloedd triniaeth/yngyngori yn cael eu glanhau'n rheolaidd er mwyn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau. Bydd y practis hefyd yn	GK / Sally Golding (SG), uwch nyrs	Mehafin 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>mae hyfforddiant wedi ei drefnu i'r holl feddygon teulu a nyrsys practis gyflawni Lefel 3 mewn amddiffyn plant.</p> <p>Bydd y practis yn adolygu ei system ac arfer presennol mewn perthynas ag oedolion sy'n agored i niwed gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys cydnabod a chofnodi amheuaeth o gamdriniaeth/camdriniaeth a gadarnhawyd a'n proses atgyfeirio bresennol. Rhoddir nodyn rhybuddio ar gofnod meddygol yr holl oedolion y credir eu bod yn agored i niwed neu y cafwyd cadarnhad eu bod yn agored i niwed (a anfonir atom gan y gwasanaethau cymdeithasol i fynychu cynhadledd achos) y bydd yr holl staff yn gallu ei weld. Rydym hefyd wedi trefnu hyfforddiant oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer ein staff clinigol a staff nad</p>		Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			ydynt yn staff clinigol.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
20	Dylai'r practis sicrhau bod system ar waith i alluogi monitro hyfforddiant yr holl staff er mwyn bod yn sicr bod y staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant parhaus.	7.1	<p>Ar hyn o bryd, mae matrices hyfforddi sgiliau ar waith yn y practis ar gyfer staff clinigol a staff nad ydynt yn staff clinigol. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant gorfodol i glinigwyr mewn meysydd fel imiwneiddiadau, cytolog ac adfywio cardio-pwlmonaidd/anaffylacsis yn gynwysedig yn y matrices sgiliau, ond cânt eu mynychu'n flynyddol – ond nid ydynt i'w gweld ar y siart matrices sgiliau. Ar gyfer staff clinigol a staff nad ydynt yn staff clinigol, mae meysydd fel tân a chodi a chario'n gynwysedig yn yr hyfforddiant staff a chânt eu monitro gan ein bwrdd iechyd lleol, er, unwaith eto, nid yw'r rhain i'w gweld yn y siart matrices sgiliau ar yr hysbysfwrdd yn swyddfa rheolwr y practis.</p> <p>Bydd y practis yn addasu ei siart</p>	GK	Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			matrics sgiliau i gynnwys hyfforddiant gorfodol yn y meysydd clinigol a'r meysydd nad ydynt yn glinigol.		

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Gerald Khan

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 6 Mai 2016